**Astudiaeth Achos**
**Cyngor Sir Ceredigion**

**Gweithgaredd y Prosiect:**
Gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion, Swyddog Gwarchodfeydd Natur a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

**Crynodeb cefndirol**
O ganlyniad i'n cyfarfod cychwynnol gyda staff y Cyngor, rydym wedi adnabod sawl maes posib o gefnogaeth;

- Cefnogi grwpiau gwirfoddoli sy'n bodoli ar hyn o bryd, a datblygu grwpiau newydd posib ar safleoedd Gwarchodfeydd Natur Lleol a bywyd gwyllt.
- Datblygu a hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli 'o safon uchel' ar gyfer gweithgaredd sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr o fewn y Cyngor.
- Cwmpasu gweithgareddau gwirfoddoli sy'n bodoli eisoes ar draws adrannau'r Cyngor - er enghraifft, Cefn Gwlad, Hawl Tramwyo, Addysg. Cysylltu cyfleoedd gyda gwirfoddolwyr.
- Cefnogaeth gyda sefydlu systemau, prosesau a chefnogi proses sefydlu gychwynnol ar gyfer Cynllun Warden Coed ar draws y Sir.
- Cwmpasu potensial ar gyfer gwirfoddoli ar dir cartrefi gofal.

Aethom ati i gynllunio ymarfer cwmpasu cychwynnol a rhannu gwybodaeth am wirfoddoli ar draws y Cyngor gan dynnu sylw at feysydd lle gall gwahanol adrannau gweithio gyda'i gilydd neu ddysgu gan ei gilydd a galluogi dull cyson o ymdrin â chefnogi gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cynnwys trafod pwynt cyswllt unigol o fewn y Cyngor ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli, a'r posibilrwydd ar gyfer ehangu cyfleoedd gwirfoddoli, gan gynnwys cyfle i am gefnogaeth i er mwyn sefydlu un o'r Cynlluniau Warden Coed ar draws y Sir.

Fodd bynnag, wedi i'n cysylltiadau cychwynnol yn y Cyngor fethu â pharhau i weithio gyda ni oherwydd salwch, fe wnaethom ddechrau canolbwyntio ar weithio gyda dwy ffrwd:

- Gweithio gyda'r Swyddog Gwarchodfa Natur newydd er mwyn cefnogi ehangu eu cynnig gwirfoddoli yng nghefn gwlad. Cynnig helpu gyda systemau a phrosesau er mwyn gwneud yn siŵr bod y ddau gynnig (grwpiau ac unigolion) yn cael adnoddau ac yn cael eu cefnogi, a bod rolau a chyfrifoldebau bob ochr yn cael eu cyfathrebu drwy gynigion a chefnogaeth gyson.

- Gweithio gyda CAVO er mwyn hwyluso cyfarfodydd rhwydweithio (ar-lein ac wyneb yn wyneb) ar gyfer staff y Cyngor sy'n cefnogi ac yn rheoli gwirfoddoli - rhannu profiadau, gwybodaeth a 'llenwi'r bylchau' wedi'i ddilyn gan hyfforddiant mewn rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr.

Bu i Llais y Goedwig gwrdd gyda CAVO ym mis Hydref 2024 ynghylch y llif gwaith uchod, lle cynigiwyd nifer o sesiynau rhwydweithio, ynghyd â chwmpasu'r cynnig gwirfoddoli presennol a hyfforddiant mewn rheoli gwirfoddolwyr.

Yn anffodus, fodd bynnag, er gwaethaf sawl ymgais i symud y cynigion hyn yn eu blaenau, roedd hynny yn amhosib, yn drist iawn, oherwydd y diffyg ymateb, ac rydyn ni'n amau, diffyg capasiti o

fewn tîm CAVO, er gwaetha'r brwdfrydedd cychwynnol.

Ers hynny rydym wedi cynnal sgyrsiau dilyn i fyny yn unigol gyda'r timau Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ynghyd ag ymatebion arolwg a dderbyniwyd, er mwyn archwilio'r cyfleoedd presennol, meysydd ar gyfer cefnogaeth a photensial gorgyffwrdd. Gweler diwedd y Ddogfen hon am ffrwyth y sgyrsiau hynny.

**Beth weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio mor dda:**

Mae ein prif gysylltiadau yn y cyngor wedi methu ag ymgysylltu gyda ni oherwydd salwch a phwysau gwaith, felly roedd yn rhaid i'n ffocws ar ymgysylltu yn y rhanbarth hwn newid ac addasu ar sawl cam.

Daeth yn eglur yn fuan iawn, drwy gysylltu gyda CSC a CAVO drwy'r cysylltiadau oedd eisoes gennym mai ychydig o gyfathrebu oedd yna rhwng adrannau'r Cyngor ynghylch materion oedd yn gysylltiedig gyda gwirfoddoli, a bod rhai o ddyheadau'r Adran Cefn Gwlad eisoes yn cael eu darparu yn rhywle arall o fewn y Cyngor.

Oherwydd diffyg cyswllt uniongyrchol gyda'r cyngor, fe wnaethom symud yn sydyn i weithio'n fwy uniongyrchol gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol CAVO, ond unwaith eto, roeddem yn canfod, oherwydd diffyg capasiti, nad oeddem yn gallu symud ymlaen gyda'n syniadau.

Mae hyblygrwydd a meddwl ychydig y tu allan i'r bocs wedi dod yn un o themâu allweddol ein gwaith yn ystod y prosiect. O ganlyniad i'r heriau hyn fodd bynnag, mae'r cynlluniau amgen rydym wedi eu rhoi mewn lle wedi arwain at wybodaeth a mewnbwn ehangach i'r prosiect na fyddai wedi bod fel arall.

**Beth a ddysgwyd:**

Mae yna ystod eang o wirfoddoli ar draws nifer o wahanol lefau yn y Cyngor, gydag ychydig o gyfathrebu rhyngddynt:

- Gwirfoddolwyr Cerddwyr a Llwybr yr Arfordir
- Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth
- Mabwysiadu Llwybr (RoW)
- Actif Ceredigion - Troeon Iechyd
- Amgueddfa Ceredigion
- Theatr Felinfach
- Cyfiawnder Ieuenctid

Yn seiliedig ar sgyrsiau mwy diweddar gyda thimau unigol, rydym hefyd wedi dysgu am feysydd cefnogaeth posib eraill, y gellid eu harchwilio mewn mwy o fanylder ym mlwyddyn 2 y prosiect.



Mae gan dîm Cefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion berthynas gwaith cryf gyda rhaglen gwirfoddoli cadwraeth Prifysgol Aberystwyth (ACV) a oedd yn astudiaeth achos diddorol ynddo'i hun, yn arbennig gan fod nifer o'r awdurdodau lleol eraill yn awyddus i ymgysylltu gyda gwirfoddolwyr mwy ifanc. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos o'r gwaith a gwblhawyd, na thrwy'r ymatebion arolwg a dderbyniwyd, bod gan y tîm cadwraeth gapasiti ar hyn o bryd i ystyried eu cynnig gwirfoddoli mewn ffordd fwy holistig. Mae yna brosiectau newydd posib ar y gorwel sydd heb unrhyw gronfa o wirfoddolwyr, a dim proses bresennol ar gyfer recriwtio. Gallai hyn fod yn rhywbeth y gallwn gynnig cefnogaeth gydag o, naill ai'n unigol neu ar y cyd gydag adrannau eraill o'r cyngor.

Mewn cymhariaeth, mae gan y tîm Hawliau Tramwy ddwy raglen gwirfoddoli lwyddiannus sydd wedi hen sefydlu (partion gwaith rheolaidd a 'mabwysiadu llwybr'). O ganlyniad mae ganddynt bwll mawr o wirfoddolwyr rheolaidd. Mae'r grŵp cyntaf yn cael ei reoli gan eu ceidwaid lleol, ac mae'r olaf yn rheoli ei hun, sy'n golygu bod llai o bwysau ar un person unigol, ond nad oes un pwynt cyswllt unigol. Maent yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu trydydd grŵp, sy'n eistedd rhywle rhwng y ddau, ac mae'n seiliedig ar raglenni llwyddiannus y gellir cymharu â hwy o fewn Sir Benfro. Gallai sefydlu hwn, ac o bosib broceru rhannu arfer da ychwanegol gyda Sir Benfro, fod yn faes lle gallai Llais y Goedwig eu cefnogi yn y misoedd sydd i ddod.




**Casgliad:**

Mae'r ymatebion arolwg a dderbyniwyd gan y tîm Cefn Gwlad (drwy aelod newydd o'r tîm) yn dangos mai ychydig iawn o fanylion sydd wedi eu cymryd gan wirfoddolwyr ynghylch eu sgiliau neu eu cymhellion, nid ydynt yn hysbysebu ar hyn o bryd gyda Gwirfoddoli Cymru, ac nid oes ganddynt ychwaith gysylltiadau cryf gyda CVCau neu grwpiau trydydd parti y tu hwnt i'r Brifysgol, nag unrhyw adnoddau ar gyfer sesiynau wedi'u hwyluso er mwyn symleiddio prosesau a gweithdrefnau. Does dim 'pwll' canolog o wirfoddolwyr, na rhai sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli. Mae yna bartneriaeth gref yn ei lle gyda Phrifysgol Aberystwyth sy'n caniatáu i lawer iawn o'r gwaith gael ei gwblhau ar draws 8 safle'r cyngor, ond gydag ychydig o gapasiti i ymestyn/amrywio eu cronfa o wirfoddolwyr.

Mewn cyferbyniad, mae gan y tîm Hawliau Tramwy raglenni gwirfoddoli llwyddiannus sydd wedi sefydlu ers tro, gyda phwll mawr o wirfoddolwyr gwirioneddol ymroddedig sy'n gweithio bob wythnos, ym mhob tywydd, ar brosiectau penodol gyda cheidwaid lleol. Fodd bynnag, mae pob adran ar hyn o bryd yn gweithio ar eu pen eu prosiectau eu hunain, sy'n ddealladwy oherwydd natur y gwaith yr ymgymerir ag ef (e.e. wedi ffocysu ar hawliau tramwy). Fodd bynnag mae yna

bosibilrwydd yn bodoli i Lais y Goedwig gefnogi pob adran ar wahân, a chwilio am gyfleoedd i rannu adnoddau, pe bai o fudd a/neu'n briodol.

Y tro hwn, y gwir gasgliad yw nad oeddem wedi gallu dod o hyd i ffordd i oresgyn y rhwystrau o wynebwyd o fewn yr amser oedd gennym ni. Oherwydd capasiti'r timau oedd yn gysylltiedig doeddem ni, yn syml iawn, ddim yn gallu bwrw ymlaen gyda'n syniadau, er eu bod, yn eironig, wedi eu hanelu at wella capasiti.

Yn seiliedig ar sgyrsiau mwy diweddar gydag aelodau unigol o'r tîm, fodd bynnag, gallai fod posibilrwydd i weithio'n agosach gyda Cheredigion dros y misoedd nesaf. Yn arbennig felly ar y fenter Hyrwyddwyr Llwybrau.